# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 14/04/2026

Presennol: Heulwen Parry, Eirian Hoyle , Gareth Jones,

1. Ymddiheuriadau: Elfed Roberts, Eurwyn Jones, Rebecca Phasey

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: EH, GJ

2a. Datgan Diddordeb: Dim

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.698 Cae chwarae Gellilydan – Ymateb wedi dderbyn gan Steffan Jones – maen't yn anelu at gwblhau trosglwyddo y maes chwarae cyn ddiwedd mis Mai fan hwyraf, ac am gysylltu gyda chadarnhad o'r union drefniadau.

3.710 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – ER wedi ail ysgrifennu at Gwyndaf Williams, dal i ddisgwyl ymateb.

3.711 'Sovereign' – Pris wedi ei dderbyn, clerc i ail-gysylltu i weld os oes modd adolygu'r dyfynbris gan fod y gost yn uwch na'r gyllideb sydd ar gael.

3.712 Sedd wag – dim diddordeb wedi ei ddangos, cadw mlaen.

3.713 Arwyddion Gellilydan – clerc i ofyn am ddiweddariad.

3.714 Hen Bôst, Gellilydan – ER wedi cysylltu a'r Tim Tacluso Bro, i'w hatgoffa, hefyd bod sawl lle arall o fewn y plwyf angen sylw.


3.715 Torri coed – Gofeb – Meredydd Williams am gysylltu a Ben o Hoschief, cadw mlaen.

3.716 Bryn Arms – ymateb wedi dderbyn gan Rhydian Roberts;

*Yn Dilyn y gŵyn fe fuodd ymweliad a'r safle ar yr 11fed o Chwefor er mwyn trafod y gwaith gyda'r rheolwr. Mae'r gwaith sydd wedi ei gwblhau yn ddiweddar yn cynnwys gosod ffos agored oedd ar derfyn gogleddol y safle mewn cylfat efo 'filter drain' ar ei phen er mwyn dal unrhyw ddŵr wyneb sy'n rhedeg oddi ar y cae uwchlaw fel fyddai'r ffos wedi ei wneud yn wreiddiol. Dydi'r ffos o dan sylw ddim i weld yn un naturiol ond yn hytrach ffos wedi ei agor yn hanesyddol er mwyn atal dŵr wyneb rhag cyrraedd safle Bryn Arms. Mae'r linell goch ar y cynllun isod yn dangos lleoliad y gwaith a'r llun uchod wedi ei gymryd yn ystod yr ymweliad.*

*Mae unrhyw waith o'r fath i gwrs dwr neu ddraen angen caniatâd gan y Cyngor o flaen llaw yn unol a rhan 23 y Ddeddf Draenio Dŵr (1991) a doedd hyn ddim wedi ei sicrhau yn yr achos yma. Wedi adolygu y gwaith sydd wedi ei wneud does dim rheswm amlwg ei fod yn mynd i newid patrymau lleol ryw lawer na chwaith felly cynyddu risg llifogydd i eiddo preifat gerllaw, ac oherwydd hyn does dim achos i'r Cyngor fod yn ystyried mesurau gorfodaeth. Serch hynny mae'r rheolwr wedi cael eu atgoffa o'r angen sicrhau caniatâd ar gyfer gwaith o'r fath yn y dyfodol, a fod gan y Cyngor bwerau i ddiddymu unrhyw waith anghyfreithlon sy'n debygol o achosi problemau.*

HP 09/06/26




3.717 Blwch Pôst gyferbyn a Tanws Maentwrog – gwaith I'w ddechrau, contractwr wedi ei apwyntio, ac mae B.T am ddidoli'r polyn.

3.718 Gordyfiant Nant y March – disgwyl ymateb gan Adrian Williams yn dilyn asesiad gan beirianwyr Cyngor Gwynedd, disgwyl ymateb.

3.719 Bancio ar-lein – Eirian Hoyle wedi derbyn manylion (cadw mlaen).

4.Materion i'w Trafod:

4.307 Cynnig cysylltu a'r Adran Iechyd a Diogelwch ynghlŷn a'r tîr gyferbyn a'r maes carafannau. (i'w anfon allan i'r cynghorwyr na oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyn cysylltu).

4.308 Cadarnhâd wedi dderbyn gan Francesca Williams ei bod wedi ymddiswyddo o'r cyngor.

5. Ariannol

5.238 Cyfrif Cadw: £230.68

5.239 Cyfrif Cyfredol: £1970.35

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.240 Richard Jones - £40

6. Cynllunio

Dim ceisiadau

7. Gohebiaeth

7.307 Rhaglan Waith

7.308 Hyfforddiant Unllais

8. Adroddiad o Gyfarfodydd eraill

Dim newyddion

9. Mynwent Dwyryd

9.93 Cyfrif y Fynwent: £22021.14

Cytunwyd i dalu:

9.94 Richard Jones: £100

HP

09/06/24

9.95 Mynwent Dwyryd - Dim diddordeb wedi ei ddangos gan Dobson Owen. Felly cynnig gofyn wrth Geraint Lewis am gael amcan bris am gwblhau y planiau a gwneud y gwaith cysylltu a contractwyr i dendro am y gwaith. Hefyd gofyn wrtho baratoi gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer gwneud cais am grant er mwyn i aelodau'r cyngor gael cyfle i gytuno ar ei gynnwys a'i ddefnyddio, (i'w anfon allan i'r cynghorwyr na oedd yn bresennol yn y cyfarfod cyn cysylltu a Geraint Lewis).

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

9fed o Fehefin, 6.30 o'r gloch, Neuadd y Pentref, Gellilydan.

10. Neuadd y Pentref, Gellilydan

Trafodaeth i ddilyn cyfarfod y cyngor gyda'r ymddiriedolwyr.

HP 09/06/26